Cylchlythyr Wythnosol

Dyddiad:27.1.17

GALA NOFIO GENEDLAETHOL YR URDD *NATIONAL SWIMMING GALA.*

Llongyfarchiadau i ddau dîm cyfnewid cymysg a Sion Connah a Dean Puplett aeth i gynrychioli Rhanbarth Fflint/Wrecsam yn enw Ysgol Glanrafon yng ngala nofio genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd dros y penwythnos diwethaf. Gwnaethant oll eu rhan yn arbennig o dda a bu'n brofiad cofiadwy i bob un ohonynt. Diolchir i'r rhieni am eu cefnogaeth, ac am roi o'u hamser i sicrhau bod y disgyblion hyn yn cymryd rhan yn y weithgaredd hon.

Congratulations to the two mixed relay teams and Sion Connah and Dean Puplett who went to represent the Flint/Wrexham region on behalf of Ysgol Glanrafon at the Urdd national swimming gala in Cardiff last week end. They all did extremely well and it was a memorable experience for these pupils. The parents are thanked for their support and for giving of their time to ensure that the pupils participated in this activity.

GWEITHDY YSGRIFENNU CREADIGOL – *CREATIVE WRITING WORKSHOP.*

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 eu hunain yn fawr yn cymryd rhan mewn gweithdy ysgrifennu creadigol gyda Dafydd Emyr, yr actor a'r awdur, ddydd Mawrth. Bydd yn dychwelyd i weithio am ddiwrnod gyda disgyblion Blwyddyn 4 a 5 eto cyn diwedd yr hanner tymor hwn.

Year 6 pupils very much enjoyed participating in a creative writing workshop with Dafydd Emyr, a Welsh actor and author, on Tuesday. He will be returning for a day to work with Years 4 and 5 pupils again before the end of this half term.

PNAWNIAU AGORED – *OPEN AFTERNOONS 13 & 15.02.17*

Byddwch yn derbyn eich hapwyntiadau ar gyfer y pnawniau hyn heddiw – felly cofiwch edrych ym magiau eich plant amdanynt! Gofynnir yn garedig i chi gadw at yr apwyntiadau hynny os gwelwch yn dda – gan fod llawer o waith wedi mynd i mewn i'w trefnu.

You will be receiving your appointments for the Open Afternoons today – therefore, please remember to look out for them in your children's bags! You are kindly asked to keep to these appointments – as a great deal of work has gone into arranging them.

CINIO THEMATIG – *THEMATIC LUNCH.*

Mae'r gogyddes wedi gofyn i mi eich hysbysu mai'r fwydlen ar gyfer y cinio thematig ddydd Iau nesaf, Chwefror 2il fydd fel a ganlyn:

The cook has asked me to inform you that the menu for the themed lunch next Thursday, February 2nd. is as follows:

Bolognese Batman neu Bolognese llysieuol – *Batman Bolognese or Vegetarian Bolognese*

Pasta darn dril – *Drill-Bit pasta* neu/*or*

Taten trwy'i chroen – *Jacket potato* neu/*or*

Potyn pasta – *Pasta pot* neu/*or*

Pecyn bwyd – *Pick 'n Mix* neu/*or* Llysieuol – *Vegetarian.*

Hufen iâ Mr Freeze – *Mr Freeze Ice Cream*

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

31.01.17	Dau Lysgennad Iaith yn ymweld ag Ysgol Croes Atti – *Two Language Ambassadors to visit Ysgol Croes Atti.*
02.02.17	Cinio thematig – (wele'r fwydlen) – *Thematic lunch (see menu*

Dewis cinio – wythnos 2 - *Dinner choice – week 2*